

Mehefin 2017

PWYLLGOR
CYDWEITHREDOL
RHANBARTHOL
GWENT

ADOLYGIAD BLYNYDDOL
EBRILL 2016 – MAWRTH 2017

cefnogipobl
supportingpeople



supporting independence in Gwent
cefnogi annibyniaeth yng Ngwent

Gweithio gyda'n gilydd dros Bobl gyda

Chefnogaeth

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	Tudalen 3
Cyflwyniad	Tudalen 4
Astudiaethau achosion	Tudalen 4 / 5
Sut mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cymryd rhan	Tudalen 7
Datblygiad Gwasanaethau	Tudalen 9
Gwerthusiad Aelod PCRh	Tudalen 18
Taflen Presenoldeb PCRh	Tudalen 21
Atodiadau	Tudalen 22

1. Crynodeb Gweithredol

Alyson Hoskins, Cadeirydd, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent

Sam Lewis, Is-gadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent

Roedd yn anrhydedd inni ymgymryd â rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent yn ystod 2016/17. Mae hi'n bleser neilltuol gweithio'n gydweithredol gydag aelodau PCRh Gwent, ar draws ystod o asiantaethau, pawb â'r nod gyffredin o wella deilliannau a thrawsnewid bywydau dinasyddion rhanbarth Gwent.

Mae'r Adroddiad Blyneddol hwn yn dangos ei bod hi wedi bod yn 12 mis prysur iawn ac fel PCRh rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar y prif heriau i ddinasyddion bregus yng Nghymru; gan gynnwys effaith diwygio lles a newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol, ynghyd â blwyddyn gyntaf gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Rydyn ni wedi cynnal dull blaenweithgar o hyrwyddo ac amlygu lles y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent, gan gysylltu'r Rhaglen â strategaethau cysylltiedig Llywodraeth Cymru a mentrau trawsbynciol yn amrywio o Raglen Teuluoedd yn Gyntaf, VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ac ACE (Profiadau Plentyndod Niweidiol).

Mae sylwadau, cyfranogiad ac ymgysylltu â dinasyddion wedi parhau i fod yn ganolog yn ein rhaglen waith, gyda'r gwelliannau i'n gwefan a'n dulliau o gyfathrebu â dinasyddion, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, Twitter ayyb yn cael eu nodi fel blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn. Y prif themâu a ddewiswyd ganddon ni ar gyfer eleni ydy 'pobl ifanc' a hefyd 'pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael' ac mae'r ddwy astudiaeth achos sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn nodi cynnydd yn y meysydd hyn.

Rydyn ni'n sicr y bydd y flwyddyn nesaf yr un mor brysur ac yn optimistaidd y bydd gan aelodau ein PCRh gydbwysedd priodol o arbenigedd a gwybodaeth, gweledigaeth a rennir, ymrwymiad, a'r brwdfrydedd i ddelio â'r heriau fydd yn ein hwynebu.

Yn olaf, hoffen ni ddiolch i aelodau PCRh Gwent am eu cefnogaeth barhaus ac edrychwn ymlaen at barhau'r cynnydd cyfunol a wnaethpwyd llynedd, yn 2017/18.



2. Cyflwyniad

Parhaodd Proffil Rhaglen Cefnogi Pobl Gwent i godi yn ystod 2016-17 trwy waith PCRh Gwent. Mae fframwaith polisi trawsbynciol y Rhaglen gyswllt gyfunol a'i chysylltiadau ag ystod eang o flaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, wedi eu cydnabod. Mae dealltwriaeth o amcanion y Rhaglen yn parhau i gynyddu wrth i gysylltiadau pellach gael eu gwneud gyda'r byrddau strategol rhanbarthol a lleol sydd newydd gael eu sefydlu a'u cyflwyno.

Mae Aelodau ac Aelodau Ymgynghorol PCRh, ynghyd â Swyddogion Cefnogi Pobl yn parhau i gyfrannu ar raddfa genedlaethol i lif gwaith Llywodraeth Cymru trwy aelodaeth y Grŵp Deilliannau a Data Cefnogi Pobl, y Grŵp Ymchwil a Gwerthuso, y Grŵp Cyllid ac Ymchwil a'r Grŵp Llywodraethiant.

Mae sawl menter wleidyddol a deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar neu sy'n cael eu datblygu sy'n dal i ddylanwadu ar gyfeiriad strategaeth, cyflwyniad a darpariaeth dyfodol gwasanaethau cefnogi tai i bobl fregus, ac yn cael eu gyrru ymlaen gan PCRh Gwent.

3. Astudiaethau achosion *X2 astudiaeth achos sy'n darparu enghreifftiau o waith a ymgwymerwyd gan y PCRh ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf.*

Enghraifft 1: I barhau rhaglen craffu ar gategorïau a gwasanaethau i gleientiaid

Mae PCRh Gwent wedi parhau gyda'i adolygiad rhaglen categorïau cleientiaid yn ystod 2016-2017, gan ddarparu aelodau â gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau sy'n digwydd o dan gategorïau cleientiaid Cefnogi Pobl. Ar ddiwrnod datblygu'r PCRh ym mis Mai 2016, fe gytunwyd y byddai gwasanaethau ar gyfer Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl a gwasanaethau Pobl Ifanc yn flaenoriaethau i gynllun gwaith PCRh Gwent yn 2016-2017.

Ymgwymerwyd ag adolygiad desg o wasanaethau i Bobl â Phroblemau Iechyd Meddwl yn ystod 2016-2017 gan Swyddogion Cynllunio Awdurdod Lleol Cefnogi Pobl, gyda gweithdy pellach wedi'i drefnu gyda Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl, ynghyd â Swyddogion Cynllunio yn ystod mis Chwefror 2017. Cwblhawyd adroddiad manwl ym mis Mawrth 2017 a'i gyflwyno i'r PCRh yn eu cyfarfod ym mis Ebrill 2017. Atodir copi o'r adroddiad fel *Atodiad 1*.

Mae'r adroddiad yn darparu'r PCRh â throsolwg manwl o'r amrediad o wasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd i Bobl â Phroblemau Iechyd Meddwl, trosolwg o'r wybodaeth a gasglwyd o fframwaith cynllunio anghenion strategol a chynhwysol yn ystod 2016 a rhai argymhellion a chatau a awgrymwyd i'r PCRh ei ystyried.

Sefydlodd y PCRh Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pobl Ifanc yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac fe gynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ar Fedi 22^{ain}, 2016. Ceir esiampl isod o'r Gwaith a ymgwymerwyd gan y grŵp hwn fel Astudiaeth Achos Enghraifft 2.

Mae'r categorïau cleientiaid, Gwasanaethau Pobl ag Anawsterau Dysgu a Phobl Hŷn, a gafodd eu hadolygu yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, wedi parhau i gael

eu hadrodd yn ôl at y cyfarfodydd PCRh bob chwe mis. Yng nghyfarfod Hydref 13^{eg}, 2016 y PCRh, fe gytunwyd y byddai adrodd yn ôl ar y categorïau cleientiaid hyn yn ffurfio rhan o adroddiad diweddarau chwarterol ffurfiol yr awdurdodau lleol, gan ychwanegu adran at adroddiad yr awdurdodau lleol er mwyn cynnwys y diweddariadau hyn, gan ddarparu diweddariadau cyfredol i aelodau'r PCRh yn erbyn unrhyw argymhellion a gytunwyd yn flaenorol.

Y prif heriau a brofir gyda holl adolygiadau'r categorïau cleientiaid ydy'r amser sydd ei angen i gwblhau a drafftio'r trosolwg manwl angenrheidiol ar gyfer adroddiad cynhwysfawr. Yr hyn sydd yn gweithio'n dda ydy bod yr adroddiadau, unwaith y'i cymeradwyir gan y PCRh, yn cael eu dosbarthu i'r byrddau cynllunio rhanbarthol perthnasol i'w bwydo i'w prosesau cynllunio, tar ar yr un pryd yn codi proffil y Rhaglen Cefnogi Pobl gyda fforymau a byrddau strategol eraill ledled Gwent. Yn ogystal â hyn, mae'r adroddiadau hyn wedi darparu trosoldd i awdurdodau lleol i symud ymlaen gydag argymhellion yr adroddiadau o fewn ardal eu hawdurdod lleol.

Enghraifft 2: Profiadau Plentyndod Niweidiol (ACE): Ymarferiad Mapio 2016

Cytunwyd ar Ddiwrnod Datblygu PCRh ym mis Mai 2016, y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pobl Ifanc yn cael ei sefydlu. Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi 2016, gan gydnabod bod Profiadau Plentyndod Niweidiol (ACE) yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac fe gafodd ei nodi gan Ysgrifennydd y Cabinet fel un o'i brif flaenoriaethau.

Rhoddodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent, trwy eu grŵp Gorchwyl a Gorffen Pobl Ifanc, ystyriaeth i Astudiaeth Profiadau Plentyndod Niweidiol Cymru, gan gytuno ei bod hi'n bwysig i ddeall faint o'r profiadau hyn y gall fod poblogaeth Cefnogi Pobl Gwent wedi bod yn agored iddyn nhw ar raddfa bersonol.

Cytunodd y grŵp mai codi proffil y Rhaglen Cefnogi Pobl ar adeg o ansicrwydd ynglŷn â chyllid Cefnogi Pobl ac amlygu'r gwaith pwysig y mae'r Rhaglen yn ei chyflawni i gefnogi oedolion sydd wedi cael Profiadau Plentyndod Niweidiol, fyddai'r gwaith cyntaf i'w ymgymryd gan y grŵp.

Cytunwyd y byddai ymarferiad mapio cipolwg yn cael ei gynnal er mwyn mapio pobl sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi gan y Rhaglen i geisio dealltwriaeth well o'r niferoedd sydd o bosib wedi cael Profiadau Plentyndod Niweidiol.

Lluniwyd holiadur a'i ddosbarthu at holl ddarparwyr cefnogaeth ledled Gwent. Ynddo fe ofynnwyd i weithwyr cymorth adolygu eu baich achosion fel cipolwg ar Fedi 30^{ain}, 2016 ac i gwblhau'r holiadur ar sail eu gwybodaeth o'r person roedden nhw'n ei gefnogi. Roedd cyfyngiadau i'r ymarferiad hwn, gan gynnwys bod yn ddibynnol ar wybodaeth fanwl y gweithwyr cymorth o'r person maen nhw'n ei gefnogi a ph'un ai bod rhywun yn derbyn cefnogaeth wedi datgelu eu Profiadau Plentyndod Niweidiol cynharach i'w gweithiwr cymorth; mae'n codi'r cwestiwn a ddylai Cefnogi Pobl fod yn gofyn yn rheolaidd am Profiadau Plentyndod Niweidiol ac os felly, sut y base hyn yn dylanwadu neu newid yr ymyriad cefnogaeth a gyflwynir wedyn.

Ceir rhywfaint o ddadansoddiad o'r data yn *Atodiad 2*. Mae'r wybodaeth yn nodi bod rhai poblogaethau oddi fewn i boblogaeth gyffredinol Cefnogi Pobl Gwent wedi cael nifer sylweddol yn fwy o Brofiadau Plentyndod Niweidiol na'r cyfartaledd cenedlaethol ac y gall bod y profiadau hyn yn dal i effeithio ar eu hiechyd a'u lles a'u gallu i ymdopi yn ystod eu bywydau fel oedolion.

Rhoddodd y dadansoddiad gipolwg hefyd o'r nifer o bobl sy'n gadael gofal sy'n derbyn cefnogaeth.

Drafftwyd briff, ac ynghyd â'r data graff gwybodaeth a thair astudiaeth achos, ei ddosbarthu'n eang ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol. Y bwriad oedd y byddai canlyniadau'r ymarferiad mapio'n darparu tystiolaeth bellach a gwell dealltwriaeth i uwch-swyddogion a rhanddeiliaid bod y prosiectau a ariennir o dan y Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu gwasanaethau hanfodol ac anhepgor, gan gyflenwi cefnogaeth i rai o ddinasyddion mwyaf bregus ein cymunedau, atal a helpu lleihau pwysedd ar wasanaethau statudol megis iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Fel canlyniad i waith ar y cyd rhwng Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pobl Ifanc y PCRh a darparwyr cefnogaeth ledled Gwent, a fu'n annog eu gweithwyr cymorth i lenwi'r holiadur, derbyniwyd 2459 o holiaduron. Gyda chymorth Swyddogion Tîm Perfformio Blaenau Gwent, a helpodd ddrafftio a llunio'r holiadur taenlen a darparu cefnogaeth i gwblhau'r dadansoddiad, roedd y prosiect yma'n llwyddiant.

I weld y dogfennau, ewch i dudalennau gwefan PCRh Gwent:

<http://www.blaenau-gwent.gov.uk/resident/health-wellbeing-social-care/getting-the-help-you-need/supporting-people/gwent-regional-collaborative-committee/>

Sut mae pobl sydd wedi cael mynediad i wasanaethau wedi cymryd rhan a helpu llunio penderfyniadau?

**Cyfleoedd ymgysylltu presennol i Ddefnyddwyr Gwasanaethau
gyda thimau Cefnogi Pobl**



**Cyfleoedd ymgysylltu presennol i Ddefnyddwyr Gwasanaethau
gyda Darparwyr Gwasanaethau**



Aelodau PCRh Gwent ac yn benodol cynrychiolwyr darparwyr cefnogaeth PCRh ac aelodau ymgynghorol Cefnogi Pobl ydy llais y defnyddwyr gwasanaethau ar hyn o bryd yng nghyfarfodydd PCRh Gwent. Mae cynnig Defnyddwyr Gwasanaethau

gyda'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r Pwyllgor a chynyddu eu dealltwriaeth o Raglen Cefnogi Pobl wedi bod yn flaenoriaeth ers 2012.

Yn ystod 2014, lansiwyd cyfrif Twitter Cefngi Pobl Gwent ac mae'r gwaith o ddatblygu Gwefan Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau Cefnogi Pobl Gwent wedi parhau yn ystod 2016-2017.

Pa newidiadau sydd wedi bod fel canlyniad i'w cyfranogiad nhw a sut mae hyn wedi cael ei gyfle yn ôl atyn nhw?

Mae Is-grŵp Defnyddwyr Gwasanaethau PCRh wedi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ers cyflwyno'r trefniadau llywodraethiant newydd yn 2012. Cyngor defnyddwyr gwasanaethau yn ystod y digwyddiadau ymgynghorol yn 2012 / 2013 oedd y dylai PCRh Gwent flaenoriaethu datblygu gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol a'r we. Mae grwpiau ffocws wedi cyfarfod gyda Defnyddwyr Gwasanaethau i ddatblygu'u syniadau ymhellach.

Mae Cynllun Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau Cefnogi Pobl Gwent (fframwaith) 2014 wedi darparu trosolwg o'r blaenoriaethau datblygu mae Defnyddwyr Gwasanaethau wedi'u hystyried yn bwysig ers cynnal y digwyddiadau ymgynghori cychwynnol hyn.

Yn ystod 2016, canolbwyntiodd gweithgarwch ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau ar gyfer y PCRh ar ddatblygu Gwefan Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau Cefnogi Pobl Gwent.

Bu Is-grŵp Defnyddwyr Gwasanaethau PCRh Gwent yn ymgysylltu â grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau i helpu cwblhau a gwneud newidiadau i'r wefan cyn ei gymryd allan ar sioe haf teithiol. Dangoswyd y wefan mewn prosiectau a gwasanaethau, boreau coffi, cyfarfodydd mewn tai a digwyddiadau defnyddwyr gwasanaethau ledled awdurdodau lleol Gwent, gan gynnig y cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau gael golwg ar y wefan a chynghori trwy holiadur byr am unrhyw newidiadau y basen nhw'n dymuno'u gweld. Casglwyd y wybodaeth o'r digwyddiadau hynny a gwnaethpwyd newidiadau i gynllun, lliw, maint ffont a thestun i'r wefan.

Derbyniodd Defnyddwyr Gwasanaethau a fu'n mynychu'r grŵp ffocws yn ystod y cyfnod adrodd, adborth trwy lythyr yn diolch iddyn nhw am gymryd rhan yn y cyfarfodydd.

5. Datblygu Gwasanaethau

Fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol, ac yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, mae gofyn inni ddarparu manylion ychwanegol ynglŷn â'r meysydd canlynol (cyfyngiad o rhwng 300-500 o eiriau i bob adran):

1. Sut mae penderfyniadau wedi'u ffurfio gan gynlluniau gwariant, dadansoddiad anghenion, deilliannau a ffynonellau data eraill? Pa newidiadau sydd wedi dod yn eu sgil?

Mae'r timau Cefnogi Pobl wedi sefydlu fframweithiau cynllunio a chomisiynu lleol a rhanbarthol sy'n:

- Creu darlun clir o gyflenwad gwasanaethau a'r anghenion cymorth yn ymwneud â thai a nodwyd ledled yr ardal a'r rhanbarth.
- Galluogi cynllunio gwasanaethau i gyfateb i fylchau a nodwyd yn narpariaeth gwasanaethau.
- Datblygu a chynnal ansawdd gwasanaethau sy'n gynaliadwy, yn berthnasol yn strategol ac sy'n cynnig gwerth am arian.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar y dinesydd; gosod anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn gyntaf trwy gynnal ymgynghoriadau priodol a thrwy ddarparu cyfleoedd i fod yn rhan o gynllunio, comisiynu ac adolygu'r gwasanaethau Cefnogi Pobl a ariennir.

Mae proses cynllunio strategol a chynhwysol Gwent yn cynnwys casglu a dadansoddi setiau data a gwybodaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae ffynonellau'r wybodaeth a'r data dan ystyriaeth yn cynnwys:

Demograffeg

- Data Cenedlaethol a Rhanbarthol: data cenedlaethol perthnasol, ar gael trwy Uned Ddata - Cymru, Daffodil ac Info Base Cymru. Asesiad Poblogaeth Gwent ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2017, Cyfrifiad 2011, Mynegai Amddifadedd Lluosog - Cymru 2014. Proffiliau Cymunedol Lleol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyflenwad

- Map Cyflenwi: caiff hwn ei gwblhau gan dimau Cefnogi Pobl lleol yn gyfredol a blynyddol ac yn cael ei goladu'n rhanbarthol; ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, roedd y data yn gipolwg o'r gwasanaethau ar Ebrill 1^{af}, 2016.
- Argaeledd gwasanaethau a darpariaeth amgen.

Galw

- Gwybodaeth monitro i ddarparwyr yn cynnwys rhestrau aros a chyfraddau di-rym: caiff darparwyr eu monitro trwy fecanweithiau cynllunio strategol a chytundebol gan dimau Cefnogi Pobl yr awdurdod lleol. Yn ychwanegol, mae

'pyrth' yn darparu tystiolaeth o'r galw am wasanaethau sy'n bwydo i'r cylch cynllunio blynyddol.

Anghenion


- Ymarferiad Mapio Anghenion Gwent (GNME): yn casglu gwybodaeth am unigolion sy'n cyflwyno i ddigartrefedd, darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl, Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Prawf a gwasanaethau perthnasol eraill yn y cyffiniau. Caiff y ffurflen ei gasglu a'i goladu'n lleol ac yn ei bwydo i declyn casglu data rhanbarthol sydd dan reolaeth y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol.
- Digwyddiad cynllunio anghenion blynyddol. Gwahoddir rhanddeiliaid i fynychu, i roi eu barn a'u sylwadau ar wasanaethau a ddarperir yn lleol a rhanbarthol; mae gwybodaeth o'r digwyddiadau hyn yn helpu deall yn well anghenion sydd heb eu hateb. Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad cynllunio anghenion rhanbarthol ar Fehefin 22^{ain}, 2016, gyda thros 100 o fynychwyr yn cynrychioli 42 o fudiadau.
- Ffurflen gais prosiectau rhanbarthol: yn darparu cyfle i rhanddeiliaid sydd â diddordeb i roi gwybodaeth sy'n helpu cynllunio gwasanaethau rhanbarthol ledled Gwent.
- Digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaethau. Gwahoddir defnyddwyr gwasanaethau i roi eu barn i'w timau Cefnogi Pobl Lleol, gan estyn y cyfle iddyn nhw roi eu barn a'u sylwadau ar y gwasanaethau a ddarperir a'r gwasanaethau sydd eu hangen.
- Mae Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl yn casglu gwybodaeth yn ymwneud ag unarddeg o ddeilliannau llesiant ar draws pedair thema, sy'n galluogi comisiynwyr a rhanddeiliaid eraill i benderfynu ar fuddiannau derbyn cymorth ar dai er mwyn gwella bywydau pobl fregus.
- Mae blaenoriaethau strategol a bylchau yn narpariaeth gwasanaethau strategaethau eraill, tystiolaeth a fforymau hefyd yn cyfrannu at ddeall anghenion.

Ymchwil a data

Rhoddir ystyriaeth i ymchwil a gyhoeddir gan grwpiau a sefydliadau eraill sydd â diddordeb, e.e. Joseph Rowntree, Shelter, Sefydliad Policy Gyhoeddus i Gymru.

Mae'r siart canlynol yn cynnig trosolwg o sut y dyrannwyd gwariant yn erbyn pob un o'r categorïau cleientiaid Cefnogi Pobl ar gyfer cynllun gwariant 2016/2017 ac yn darparu cymhariaeth â chynllun gwariant 2015/2016. Mae'n nodi symudiad gwariant ar draws y categorïau cleientiaid fel canlyniad i ddadansoddiad o'r wybodaeth a ddarparwyd trwy broses cynllunio anghenion strategol a chynhwysol Cefnogi Pobl Gwent ac yn enwedig felly symudiad gwariant tuag at wasanaethau ymyriad cynnar ac atal digartrefedd.

Comparison % of spend / client category



2. Pa waith Rhanbarthol ac Is-ranbarthol (i PCRh sydd â mwy na 2 awdurdod lleol) a gomisiynwyd a sut mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Blynnyddol?

Trais yn y Cartref:

- Yn ystod 2016, cafwyd adolygiad o gynllun peilot trawsawdurdod gwasanaeth cymorth fel bo'r angen y Cyngor Troseddu Cenedlaethol ar gyfer Menywod Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghasnewydd, Torfaen a Blaenau Gwent, ac fe gytunwyd i derfynu'r prosiect rhanbarthol oherwydd diffyg galw amdano.
- Mae lloches newydd i ferched gydag anghenion cymhleth yn cael ei datblygu, gydag awdurdod lleol Chaerffili yn arwain y prosiect. Fel canlyniad i ofynion cynllunio a gwaith adeiladu, mae'r prosiect hwn ar waith ar hyn o bryd; wedi'i gwblhau, fe fydd y gwasanaeth newydd yn darparu adnoddau i Gwent ac mae'r safle mewn lleoliad da iawn o ran cysylltiadau trafnidiaeth a chyfleusterau hamdden lleol.

Troseddu

- Cynhaliwyd adolygiad o 2 o gynlluniau troseddu rhanbarthol Gwent yn ystod 2015-2016 ac ail-lansiwyd y cynllun ar ei newydd wedd ar Ebrill 1^{af}, 2016, i ddarparu gwell llwybrau atgyfeirio a mwy o unedau i bobl sydd mewn peryg o droseddu; bydd gweithwyr y prosiect yn cario baich achosion o anghenion a risgiau cymorth uchel ac isel.
- Cyflwynwyd gweithiwr PREP (Prosiect Galluogi wedi Rhyddhau o'r Carchar) yn ystod cyfnod adrodd 2015-2016; fe'i hariennir ar y cyd gan Blaenau Gwent, Timau Cefnogi Pobl ac Atebion Tai Sir Fynwy a Thorfaen. Parhaodd yr ariannu ar gyfer y swydd trwy 2016-2017 gydag awdurdod lleol Sir Fynwy yn arwain y prosiect.

Cymorth Generig lle bo'r angen i Atal Digartrefedd

- Torfaen ydy'r awdurdod lleol sy'n arwain y prosiect peilot cymorth lle bo'r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a gomisiynwyd gan Torfaen, Blaenau Gwent a Chasnewydd. Fel canlyniad i alw cynyddol ac yn dilyn gwerthusiad, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ehangu, gydag ychwanegu gweithiwr cymorth FTE i ddarparu gallu ychwanegol i ateb anghenion y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Gwasanaethau Pobl Hŷn

-
-
-
-
-
-
-
-
-

3. Sut fedrwch chi ddangos bod dull mwy ataliol i ddigartrefedd ac ymyriad cynharach yn cael eu cyflenwi? Ym mha fodd mae hwn wedi cael ei ddelio ar lefel rhanbarthol?

-

- Mae gwasanaethau atal digartrefedd ac ymyriad cynnar yn cael eu cyflenwi ledled pob ALI yng Ngwent, gyda'r graff a atodir yn *adran 1* yn nodi symudiad gwariant tuag at wasanaethau generig cymorth lle bo'r angen i atal digartrefedd ers y cyfnod adrodd blynyddol blaenorol. Yn ychwanegol, atodir graff gwybodaeth fel *atodiad 3* yn nodi'r nifer o wasanaethau sydd bellach yn cael eu cyflenwi'n benodol gan dimau Atebion Tai i ateb agenda'r strategaeth trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

Blaenau Gwent:

- Gweithiwr Cymorth wedi'i gyd-leoli yn y Ganolfan Cyngor ar Dai.
- Gweithwyr Cymorth wedi'u lleoli o fewn y Ganolfan Cyngor ar Dai.
- Mae Cefnogi Pobl yn ariannu Swyddog Llety PRS sy'n cynnig cymorth i bobl yn y PRS.
- Mae'r tîm Cefnogi Pobl mewn trafodaethau i fabwysiadu modiwl Cefnogi Pobl o System Abritas fel y gellir defnyddio dull system gyfan tuag at Gefnogi Pobl a Digartrefedd.
- Bellach mae sawl uned argyfwng wedi'u gosod o fewn cynlluniau cymorth lle bo'r angen.

Caerffili:

- Rydyn ni wedi tendro a llwyddo i sicrhau gwasanaeth i rai sy'n cysgu allan ym Mwrdeisdref Caerffili: mae hyn yn cynnwys rheoli'r ddarpariaeth aeaf brys a chael mynediad i lety cynaliadwy.
- Mae staff sydd wedi'u secondio gwahanol ddarparwyr cymorth wedi'u lleoli yn y Ganolfan Cyngor ar Dai:
 - mae 3 aelod staff yn cyflenwi cymorth tenantiaeth mewn argyfwng i'r rhai hynny sy'n derbyn gorchymyn troi allan yn ddi-oed
 - mae gweithiwr cyfryngu yn darparu cymorth i bobl ifanc a'u gofalwyr
 - mae swyddog neilltuol yn darparu cyngor i'r rhai hynny sy'n dianc rhag trais yn y cartref
 - mae swyddog llety neilltuol i bobl ifanc yn rheoli'r broses dosbarthu a symud ymlaen i rai 16+
- Rydyn ni wedi cyd-leoli 4 aelod staff cymorth lle bo'r angen gan ddau wahanol ddarparwr cymorth mewn swyddfeydd tai ledled y bwrdeisdref i ddelio ag anghenion cymorth yn ymwneud yn benodol â thai.

Sir Fynwy:

- Mae Swyddog Llety Pobl Ifanc bellach wedi'i leoli o fewn y tîm Atebion Tai.

Casnewydd:

- Mae'r broses mynedfa yn blaenoriaethu atgyfeiriadau, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn perygl o golli eu llety
- Mae tîm TASA o bedwar gweithiwr cymorth wedi'i leoli yn yr Uned Anghenion Tai ers 2003/4
- Gweithiwr Cymorth Cynhwysiant Ariannol wedi'i leoli gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Gweithiwr Llety a Chymorth Pobl Ifanc wedi'i leoli gyda Gwasanaethau Plant

- Gweithiwr Cymorth Anableddau Corfforol
- Gweithiwr Cymorth Ymfudwyr
- Gweithiwr Cymorth Ffoaduriaid

Torfaen:

- Yn Nhorfaen, rydyn ni wedi lleoli gwasanaethau cymorth o fewn y Gwasanaeth Atebion Tai i ddarparu mynediad di-oed i gyngor, cymorth i bobl fregus sydd mewn perygl o ddigartrefedd ac yn darparu dull o atal sy'n gydweithrediadol.
- Peilot rôl Cyswllt Iechyd Meddwl yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Opsiynau Tai i ateb anghenion pobl sy'n cyflwyno fel rhai digartref gydag anghenion iechyd meddwl
- Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol i weithio'n benodol gyda phobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd oherwydd eu hamgylchiadau ariannol
- Gwasanaethau ymyrru mewn argyfwng i atal digartrefedd
- Mae peilot Gweithiwr Cymorth Tai wedi'i leoli gyda thîm Teuluoedd yn Gyntaf

4. Pa gysylltiadau sydd gan PCRh gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A oes unrhyw gyd-gomisiynu gwasanaethau neu gyfuno adnoddau wedi bod? Os oes, rhwch fanylion o'r prosiect(au).

Ar hyn o bryd mae tri Phennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n aelodau Awdurdod Lleol PCRh Gwent. Yn ystod 2016-2017, penodwyd cadeirydd PCRh newydd i PCRh Gwent; ei rôl hithau o fewn yr Awdurdod Lleol ydy Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, gan gryfhau'n bellach y cysylltiadau â chydweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol a byrddau partneriaeth ledled y rhanbarth. Mae gynnon ni ddau gynrychiolydd iechyd ar PCRh Gwent: mae BIPAB ac Iechyd Cyhoeddus yn aelodau canolog PCRh Gwent.

Mae'r prosiectau canlynol yn nodi un ai weithgarwch cyd-gomisiynu neu gyfuno adnoddau:

Blaenau Gwent:

- Swyddi a ariennir gan Cefnogi Pobl wedi'u lleoli o fewn timau IAA Gofal Cymdeithasol.

Caerffili:

- Gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty a gyd-ariennir gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.
- Gwasanaeth cymorth lle bo'r angen mewn argyfwng a gyd-ariennir â gofal cymdeithasol.

Casnewydd:

- Casnewydd: x1 Gweithiwr Cymorth Al Tâf wedi'i fewnosod yn y Tîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty (YBG)

- x1 Gweithiwr Cymorth a ariennir trwy BIPAB ariannu ICF ar gyfer awdurdodau lleol eraill Gwent
- x1.5 Gweithwyr Cymorth wedi'u lleoli yn Ysbyty Sant Cadog
- X1 Gweithiwr Llety a Chymorth Pobl Ifanc wedi'i lleoli yn y timau Llwybrau Plant

5. Pa gysylltiadau sydd wedi'u gwneud â grwpiau strategol / cynllunio rhanbarthol, a pha baratoadau a wnaed i gydweithio â'r Bwrdd Arwain Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cydetholodd PCRh Gwent gynrychiolydd o'r **Bwrdd Arwain Rhanbarthol** er mwyn cryfhau'r cysylltiadau a darparu modd i wybodaeth symud rhwng y ddau fwrdd strategol. Mynychodd y cynrychiolydd eu cyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2016.

Sefydlwyd partneriaethau cryf rhwng y **tîm Gweddnewid Rhanbarthol**, sy'n cydlyn gwaith y Bwrdd Arwain Rhanbarthol. Mae Cefnogi Pobl yng Ngwent wedi cyfrannu at ddatblygiad yr **Asesiad Anghenion Poblogaeth** ac Aelodau PCRh, Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl ac mae'r RDC yn aelodau o ffrydiau gwaith perthnasol a sefydlwyd i symud gwaith y Bwrdd Arwain Rhanbarthol yn ei flaen.

Roedd y PCRh yn cydnabod bod **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn cael eu sefydlu yn ystod y cyfnod adrodd hwn; felly lluniwyd cysylltiadau gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, unwaith iddyn nhw gael eu sefydlu'n lleol. Mae pob un o Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl wedi ffurfio cysylltiadau lleol gyda'u Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n eistedd ar ffrydiau gwaith perthnasol. Gwnaed cais ffurfiol at Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl yng nghyfarfod Ionawr 2017 i adrodd ar y datblygiadau ac i ddarparu trosolwg o safle Cefnogi Pobl o fewn ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a hynny i gyfarfod Ebrill 2017 PCRh Gwent.

Mynychodd yr Hyrwyddwyr Trechu Tlodi Cyfetholedig eu cyfarfod PCRh cyntaf ym mis Ebrill 2016.

Yn unol â gofynion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, estynnwyd gwahoddiad i **Tai Pawb** i fynychu ac arsylwi ar gyfarfod mis Gorffennaf 2016 PCRh Gwent; yn dilyn hyn, daeth Tai Pawb yn aelodau cyfetholedig PCRh Gwent.

6. Yn dilyn argymhellion Aylward, pa ganran o wariant ar wasanaethau deiliadaeth pobl hyn sy'n niwtral, h.y. ar gael yr un fath i berchnogion tai, PRS a thenantiaid landlordiaid cymdeithasol? Os na, pa gynlluniau sydd gan y PCRh mewn lle i gyflenwi gwasanaethau deiliadaeth niwtral ac o fewn pa amserlenni?

Cafodd gwasanaethau i bobl hyn eu blaenoriaethu ar gyfer craffu gan PCRh Gwent fel rhan o'u cynllun gwaith yn 2014/2015 ac yn ystod 2014, sefydlodd PCRh Gwent amserlin yn datgan "erbyn diwedd 2016, fe fydd pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen". Mae'r blaenoriaethu hyn gan PCRh Gwent wedi helpu sicrhau bod gwaith wedi parhau i gael ei wneud yn lleol i symud yr argymhellion a wnaed yn

Adolygiad Aylward 2010, ymlaen. Rhoddwyd adroddiadau a diweddariadau i PCRh trwy gydol 2016-2017, yn nodi'r cynnydd sy'n digwydd.

Blaenau Gwent:

Mae pob un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), heblaw am un, wedi ailfodelu eu gwasanaethau pobl hŷn yn gynlluniau cymorth lle bo'r angen yn amhenodol o'u deiliadaeth. Ail-fodelodd yr RSL arall eu gwasanaeth yn 2016/17 ac o Ebrill 1^{af}, 2017, mae holl wasanaethau Pobl Hŷn Blaenau Gwent yn cael eu cyflenwi trwy wasanaethau cymorth lle bo'r angen yn amhenodol o'u deiliadaeth.

Caerffili:

Dim ond un gwasanaeth sydd gynnon ni sydd heb ei ailfodelu eto, sy'n cyfateb i 3% o holl gyllideb cymorth lle bo'r angen i rai dros 55. Bydd ailfodelu'r gwasanaeth hwn yn cael ei gwblhau yn 2017/2018, gan sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyflenwi cymorth lle bo'r angen yn amhenodol o ddeiliadaeth i bobl hŷn.

Sir Fynwy:

Bydd 100% o'n gwasanaethau cymorth i bobl hŷn, o 2017/18 yn cael eu cyflenwi fel gwasanaethau cymorth lle bo'r angen.

Casnewydd:

Ar hyn o bryd does dim un o wasanaethau pobl hŷn Casnewydd yn 100% amhenodol ar ddeiliadaeth ond mae pob un wedi'i ailfodelu i gefnogi pob un o'u tenantiaid hŷn.

Yn ystod 2017/18, mae'r Tîm CP yn cynnal adolygiad llawn o'n holl wasanaethau i bobl hŷn, gyda golwg ar gomisiynu gwasanaeth amhenodol ar ddeiliadaeth newydd i holl ddinasyddion Casnewydd yn 2018/19.

Torfaen:

Mae pob gwasanaeth i bobl hŷn yn amhenodol ar ddeiliadaeth. Mewn ymarferiad tendro diweddar, ailwampwyd cymorth yn ymwneud â thai i bobl hŷn er mwyn darparu un gwasanaeth cymorth lle bo'r angen yn canolbwyntio ar anghenion yn hytrach na deiliadaeth.

7. Yn rhanbarth PCRh, pa gomisiynu sy'n digwydd rhwng Cefnogi Pobl a rhaglenni hanfodol eraill, e.e. Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Diogelwch Cymunedol/trais yn y cartref? Rhestrwch y prosiect, yr awdurdod lleol a pha ffrydiau ariannu sydd ynghlwm â hyn.

Ledled Gwent, gweithiodd timau Cefnogi Pobl yn agos â'u timau Gofal a Thrwsio neu Diogelwch Cymunedol lleol i drefnu dosbarthu cyfarpar Gwella Diogelwch a bwrcaswyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Blaenau Gwent:

Mae Cefnogi Pobl wedi ariannu Gweithiwr Cymorth Tai sydd wedi'i leoli o fewn y tîm Teuluoedd yn Gyntaf.

Caerffili:

Mae'r llall hefyd yn wasanaeth Cefnogi Pobl a Teuluoedd yn Gyntaf sydd ar gael i ferched sy'n dianc rhag trais yn y cartref; mae'n wasanaeth sy'n darparu cymorth holistaidd i ferched, gan gynnwys sesiynau grŵp a chymorth un ac un i'r teulu cyfan.

Casnewydd:

Mae yma ddau Weithiwr Cymorth i Fudwyr a Ffoaduriaid sydd ar hyn o bryd wedi'u comisiynu a'u hariannu gan Cefnogi Pobl a Teuluoedd yn Gyntaf.

Prosiect Sgiliau Teulu wedi'i gyd-ariannu gan Cefnogi Pobl a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae gweithiwr arbenigol cymorth lle bo'r angen ar alcohol yn cael ei gyd-ariannu ar hyn o bryd gan Cefnogi Pobl a Gwent Mwy Diogel/OPCC. Mae'r prosiect hwn yn gweithio dan nawdd Bwrdd Cynllun Integredig Sengl / Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Torfaen:

Yn Nhorfaen, mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cynnal peilot cydweithio gyda'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan leoli gweithiwr cymorth ar dai o fewn y tîm Teuluoedd yn Gyntaf. Bwriad y peilot ydy:

- Deall anghenion cymorth ar dai teuluoedd bregus sy'n defnyddio dull Teuluoedd yn Gyntaf.
- Datblygu dealltwriaeth ar y cyd o rolau gwasanaethau Cefnogi Pobl a ariennir a darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf.
- Rhannu arfer da rhwng Rhaglenni Cefnogi Pobl a Teuluoedd yn Gyntaf.
- Treialu dull o gydweithio ar draws y Rhaglenni i sicrhau bod anghenion teuluoedd bregus yn Nhorfaen yn cael eu hateb.
- Nodi anghenion cymorth ar dai teuluoedd sy'n defnyddio darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf a chymryd camau i sicrhau bod y rhain yn cael eu hateb trwy'r gwasanaeth mwyaf addas, gan atgyfeirio a chyfeirio lle bo angen.

8. A ydy pob awdurdod lleol yn eich ardal wedi mabwysiadu Cynllun Strategol Rhanbarthol y PCRh?

Fe gymeradwywyd y Cynllun Strategol Rhanbarthol yn ffurfiol gan PCRh Gwent ym mis Ionawr 2017. O dan ofynion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'r Cynllun Strategol Rhanbarthol i'w fabwysiadu gan holl awdurdodau lleol Gwent a'i gadarnhau gan Uwch-swyddogion o bob Awdurdod Lleol sy'n arwyddo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r Cynllun Strategol Rhanbarthol i'w ddosbarthu i'r Grwpiau Cynllunio Lleol Cefnogi Pobl ac i uwch-reolwyr yn adrannau perthnasol yr Awdurdodau Lleol.

Dydyn ni ddim yn ymwybodol o unrhyw broses bresennol sydd i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan Awdurdodau Lleol heblaw a ddisgrifir uchod; mae'n bosib y bydd gofyn i Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried hyn yn ystod 2017-2018 a chytuno ar broses i fabwysiadu'n ffurfiol Cynlluniau Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl.

9. Sut mae Grwpiau Cynllunio Lleol yn cyfrannu at benderfyniadau'r PCRh?

Ar hyn o bryd, mae Grwpiau Cynllunio Lleol yn cymeradwyo Cynlluniau Comisiynu Lleol trwy'r prosesau cynllunio strategol lleol, sy'n cynnwys mapio anghenion a bylchau, blaenoriaethau lleol a rhanbarthol a nodwyd a chymeradwyo cynlluniau gwariant lleol, gan gynnwys adrodd am amrywiadau +/-10% a phenderfyniadau comisiynu yn ôl Adroddiadau chwarterol yr Awdurdodau Lleol i'r PCRh.

Mae Grwpiau Cynllunio Lleol yn cael codi materion a phryderon gyda'r PCRh trwy Aelodau Ymgynghorol Arweiniol Cefnogi Pobl y PCRh sy'n mynychu cyfarfodydd y PCRh.

Mae grwpiau Cynllunio Lleol yn darparu llywodraethiant a throsolwg o benderfyniadau lleol y timau Cefnogi Pobl.

6. Gwerthusiad o'r PCRh

Gofynnir i holl Aelodau, Dirprwyon, Aelodau ac Ymgynghorwyr Cyfetholedig i roi eu barn ar PCRh Gwent.

a. Beth weithiodd yn dda yn ystod y cyfnod adrodd hwn?

- Datblygiadau defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys datblygu'r wefan a'r cyfrif trydar
- Proffil grŵp cleientiaid iechyd meddwl manwl a nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth.
- Adolygiad cyfredol o Wasanaethau Pobl Hŷn ac Anableddau Dysgu
- Siaradwyr / cyflwyniadau diddorol yn ysgogi'r meddwl yn y PCRh
- Aelodaeth amrywiol, yn cyfethol aelodau newydd gan gynnwys o'r Bwrdd Arwain Rhanbarthol, Taclo Tlodi a Tai Pawb yn ystod y cyfnod adrodd.
- Ymarferiad Mapio Profiadau Plentyndod Niweidiol (ACE) 2016 – a helpodd i godi proffil y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r cysylltiadau â'r agenda hwn.
- Cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i weithio'n gydweithredol ar draws ardaloedd Cefnogi Pobl a gydag asiantaethau eraill.

b. Beth sydd angen ei symud ymlaen dros y flwyddyn nesaf?

- Angen cynyddu nifer aelodau PCRh, neu aelodau cyfetholedig, gyda phrofiad a/neu wybodaeth am dai a/neu ddigartrefedd.
- Angen cynyddu yng ngwasanaeth amhenodol ar ddeiliadaeth i bob person hŷn yn y rhanbarth, nid yn unig o fewn darparwyr tai cymdeithasol/stoc cyngor.

- Unioni ariannu SPPG ar gyfer cynlluniau anableddau dysgu.
- Parhau i godi proffil Cefnogi Pobl gydag agenda ACE
- Ystyried gwasanaethau pobl sy'n cysgu ar y stryd
- Cynyddu comisiynu traws-awdurdod/partner
- Goblygiadau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol... a oes gan CP rôl/cyfraniad clir?
- Parhau i gynyddu cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau'r Cyhoedd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Gwerthuso/effeithiau cyllideb; Cynllun strategol ar gyfer toriadau arfaethedig 2018/19 a 2019/20
- Mwy o graffu cynlluniau cyllideb/gwariant, h.y. sesiwn hanner diwrnod r
- Llawer o heriau o'n blaenau – e.e. atal digartrefedd, diwygio lles, effaith cyflwyno credyd cynhwysol, Adolygiad Llety â Chymorth
- Ystyried datblygiadau sy'n gysylltiedig â rhaglen VAWDASV ac agenda Taclo Tlodi.
- Fframwaith Deilliannau ac Arweiniad CP newydd datblygol a sicrhau cyllidebau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Datblygu methodoleg ynglŷn â sut fydd y Fframwaith Deilliannau diwygiedig yn cyfrannu at wahanol agendâu a hysbysu comisiynu.
- Datblygu fframwaith/teclyn cywir a mesuradwy i asesu cyfraniad CP at agenda atal digartrefedd.
- Hoffwn weld asesu cyfraniad y gwasanaethau a ariennir gan CP mewn cyd-destun ehangach, gan arddangos yn glir gwerth CP i asiantaethau eraill megis y GIG.

c. Unrhyw sylw arall?

- Beth sydd wedi digwydd i argymhellion Adroddiad Miller ac archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru?
- Beth sy'n digwydd i'r adroddiadau hyn? A fydd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl neu swyddogion Llywodraeth Cymru eu dadansoddi, nodi arfer da a gwneud argymhellion i bob PCRh ac Ysgrifennydd Cabinet LIC? Beth os ydy'r perfformiad gwael yn parhau neu'r argymhellion yn cael eu hanwybyddu... a oes unrhyw sancsiynau LIC y gellir eu gweithredu, e.e. diffyg GWIR gynnydd ar argymhelliad Aylward ar bobl hŷn?
- Sicrhau bod PCRh yn cadw hygyrdded, cydweithrediad, llais a dylanwad. Mae PCRh Gwent yn adnodd gwyb o arbenigwyr sy'n ymgysylltu, gwybodys, ymrwymedig ac amrywiol sydd yn gwneud ac yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. *'GWEITHIO AR Y CYD DROS BOBL GYDA CHEFNOGAETH!'*

7. Llywodraethiant – Cynnal a Chadw

- a. A oes gan y PCRh Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyfredol wedi'i lofnod gan yr holl aelodau? **Oes**
- b. A oes gan holl aelodau'r PCRh ffurflen Datganiad Buddiant gyfredol? **Oes**
- c. A ydy'r PCRh wedi cyhoeddi'r diweddaraf o'i Gynllun Gwariant rhanbarthol a'r Cynlluniau Gwariant i bob awdurdod lleol yn y rhanbarth? **Cyhoeddir y cynllun gwariant rhanbarthol o fewn i'r Cynllun Strategol Rhanbarthol**
- ch. A ydy'r PCRh wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Rhanbarthol diweddaraf? **Ydy**
- d. A ydy'r PCRh wedi cyhoeddi Adroddiad Adolygiad Blynyddol llynedd? **Nac ydy. Cytunwyd yn ystod y cyfnod adrodd, gan fod y ddogfen hon yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Llywodraethiant i'w hadolygu ac nad oes, ar hyn o bryd, unrhyw ofyniad ffurfiol i gyhoeddi'r ddogfen hon fel rhan o delerau amodau grant Rhaglen Cefnogi Pobl, na fyddai Adolygiad Blynyddol 2015-2016 yn cael ei gyhoeddi. Yn ychwanegol at hyn, yn ystod 2016-2017, doedd dim ariannu ar gael ar gyfer cyfieithu.**
- Mae arian wedi'i ddyrannu oddi fewn i gyllideb ariannu'r PCRh rhanbarthol ar gyfer cyfieithu Adolygiad Blynyddol 2016-2017.**
- dd. Ydy'r PCRh wedi cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd? **Ydy. Cyhoeddir holl gofnodion PCRh wedi'u cymeradwyo yn y cyfarfod PCRh dilynol ac ar ôl eu cyfieithu.**

6. Taflen Presenoldeb PCRh Ebrill 2016 – Mawrth 2017

Attendance Register for RCC Members						
Full Members Name	Date 14.04.16	Date 14.07.16	Date 13.10.16	Date 26.01.17	No Mtgs Attended	Attendance %
	Full Member	Full Member	Full Member	Full Member		
	Deputy	Deputy	Deputy	Deputy		
	Advisory	Advisory	Advisory	Advisory		
Alyson Hoskins	deputy	Full member	deputy	Full Member	4	100
Elke Winton	Full Member	Full member	Full member	Full Member	4	100
Chris Robinson	Full Member			deputy	2	50
Nigel Stannard	Full Member	Full member	Full member	Full Member	4	100
Viv Daye	deputy	deputy	deputy	deputy	4	100
Chris Edmunds	Full Member		Full member		2	50
Julia Osmond	Full Member	Full member	Full member		3	75
Diana Binding	Deputy	deputy		deputy	3	75
Hugh Irwin		Full member	Full member	Full Member	3	75
Richard Sheahan		Full member	Full member		2	50
Rhian Stone		Full member		Full Member	2	50
Sam Lewis	Full Member		Full member	Full Member	3	75
Colin Jones	Full Member			Full Member	2	50
Angela Lee	Advisory	Advisory	advisory	Advisory	4	100
Trudy Griffin	Advisory			Advisory	2	50
Malcolm Topping	Advisory	Advisory	advisory	Advisory	4	100
Michelle Church	Advisory	Advisory	advisory		3	75
Simon Rose	Advisory			Advisory	2	50
Beth Covill	Advisory	Advisory	advisory	Advisory	4	100
Donna Lemin			advisory	Advisory	2	50
Helena Hunt					0	0
Neil Taylor	Deputy		co-opt		2	50
Dave Congreve		Co-opt		Co-opt	2	50
Alicia Zalesinska		Co-opt			1	25
	17	13	15	17		

Atodiadau

- Atodiad 1: Adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cefnogi Pobl Gwent
- Atodiad 2: Graff gwybodaeth Ymarferiad Mapio Anghenion Plentyndod Niweidiol Cefnogi Pobl 2016
- Atodiad 3: Cyflenwi Gwasanaethau Ymyriad Cynnar Arbenigol a Chymorth Digartrefedd ataliol oddi fewn i Atebion Tai

Atodiad 1

Ebrill 2017

**Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl
Cefnogi Pobl Gwent
Adroddiad**

cefnogipobl
supporting**people**



supporting independence **in Gwent**
cefnogi annibyniaeth **yng Ngwent**

Cynnwys

1. Cyflwyniad
 - 1.1. Ystadegau Cenedlaethol Allweddol
 - 1.2. Cyhoeddiadau Diweddar a Chyfeiriad Polisi
 - 1.3. Arfer Da Ardaloedd a Rhanbarthau Eraill
2. Trosolwg
3. Tystiolaeth Angen
4. Cynigion Prosiect Cynllun Strategol Rhanbarthol
5. Trosolwg o gyfarfodydd tîm Cefnogi Pobl
6. Camau gweithredu
7. Cyflenwad Gwasanaethau cyfredol

1. Cyflwyniad

Fe fu PCRh Gwent yn blaenoriaethu grŵp cleientiaid Pobl â Materion Iechyd Meddwl fel rhan o'i gynllun gwaith ar gyfer 2016-2017 ac fe gytunwyd yn ystod cyfarfod mis Hydref 2016 y byddid yn ymgymryd ag adolygiad desg o wasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o sefyllfa bresennol cyflenwad y gwasanaethau iechyd meddwl ledled Gwent at sylw'r Pwyllgor.

1.1 Ystadegau Cenedlaethol Allweddol

- Mae gan 1 ymhob 4 person broblem iechyd meddwl. (*Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Afiachusrwydd Seiciatrïg (2007)*)
- Amcangyfrifir bod cost gyffredinol problemau iechyd meddwl yng Nghymru yn £7.2 biliwn y flwyddyn. (*Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Meddwl (2009), yn hyrwyddo iechyd meddwl ac atal salwch meddwl: yr achos economaidd dros fuddsoddi yng Nghymru*)
- Erbyn 2020, fe fydd problemau'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn ail yn unig i glefydau'r galon fel prif gyfrannwr baich haint byd-eang (*Sefydliad Iechyd y Byd*)
- Mae 53% o fenywod Cymru'n dioddef problemau iechyd meddwl lefel isel. (*Women Like Me, Supporting Wellbeing in Girls and Women, Platform 51, 2011*)
- Mae hunan-niweidio yn broblem arwyddocaol yng Nghymru, ac fel canlyniad ceir 6,000 o dderbyniadau brys i'r ysbytai pob blwyddyn. (*Siarad â Fi, Cynllun gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru, LICC, 2008*)
- Mae 300 o bobl yn marw o hunanladdiad pob blwyddyn yng Nghymru; mae 150,000 yn hel meddyliau am hunanladdiad people. (*Siarad â Fi, Cynllun gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru, LICC, 2008*)
- Yn 2010-11, roedd 11,198 o dderbyniadau (heb gynnwys rhai a gafodd eu cadw mewn lleoedd) i gyfleusterau iechyd meddwl yng Nghymru. (*Derbyn cleifion i gyfleusterau iechyd meddwl 2010-11, Llywodraeth Cymru, 2011*)
- Mae cyfradd hunanladdiad i ddynion yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU. (*Siarad â Fi, Cynllun gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru, LICC, 2008*)

* cyfeiriad: gwefan Amser i Newid Cymru

1.2 Cyhoeddiadau Diweddar a Chyfeiriad Polisi

Taclo 'Profiadau Plentyndod Niweidiol' ydy'r allwedd i wella lles meddyliol yng Nghymru, yn ôl adroddiad, Gorffennaf 11, 2016: Gellir lawrlwytho fersiwn llawn o'r adroddiad yma: [Adverse Childhood Experiences and their association with mental wellbeing in the Welsh adult population](#)

Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ar Fehefin 28, 2016:

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=en>

Mae cymorth tai yn rhan hanfodol o ofal iechyd meddwl, meddai adroddiad Canolfan Iechyd Meddwl, Mehefin 07, 2016:
<https://www.centreformentalhealth.org.uk/more-than-shelter>

Papur Polisi Iechyd Meddwl a Thai 2016:
[https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Mental Health and Housing Report 2016 1.pdf](https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Mental%20Health%20and%20Housing%20Report%202016%201.pdf)

1.3 Arfer Da

Conwy a Gwynedd: Gwasgaredig: <https://www.nwha.org.uk/find-a-home/our-homes/supported-housing/dispersed-project/>

Y Fro: Gwerthusiad o Gynllun Tai Gwasgaredig Bro Morgannwg
<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-vale-glamorgan-dispersed-housing-scheme/?lang=en>

Housing First Finland:
<http://www.feantsa.org/en/news/2016/11/14/finland-leads-the-way-on-reducing-homelessness-with-housing-first>

2. Trosolwg

Mae'r galw am wasanaethau pob amser yn uchel ac mae'n cael ei gydnabod bod ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaethau gyda lefel is o broblemau iechyd meddwl yn derbyn cymorth ar draws prosiectau a chynlluniau eraill sy'n cael eu hariannu o dan gategoriâu cleientiaid Cefnogi Pobl eraill a bod pobl yn gynyddol yn troi at wasanaethau gydag anghenion sy'n gymhleth iawn.


Mae gwybodaeth a dderbyniwyd trwy fframweithiau cynllunio strategol a chynhwysol Cefnogi Pobl Gwent yn cadarnhau bod gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn yn faes blaenoriaeth i'w datblygu, yn lleol ac yn rhanbarthol ac mae hi'n debygol bod y galw am wasanaethau yn y dyfodol am barhau i gynyddu.

Wrth adolygu'r grŵp cleientiaid hwn, mae'r PCRh a thimau Cefnogi Pobl ledled Gwent wedi cael cyfle i ystyried anghenion, darpariaeth a chyflenwad gwasanaethau yn y dyfodol.


3. Tystiolaeth angen

Dadansoddi data Ymarferiad Mapio Anghenion Gwent

Coladiad Data Rhanbarthol Prif Anghenion ac Anghenion Eilaidd



Cymharu Awdurdodau Lleol ar Brif Anghenion ac Anghenion Eilaidd



Mae'r graffiau'n cynnig dadansoddiad o'r prif anghenion a'r anghenion eilaidd mae pobl yn eu cyflwyno i'r gwasanaethau trwy goladiad rhanbarthol a thrwy cymharu data awdurdodau lleol.

Mae'r data'n parhau i adlewyrchu'r ffaith fod pobl yn cyflwyno'u hunain i'r gwasanaethau gyda'r un anghenion pennaf â blynyddoedd blaenorol; eleni, mae iechedd meddwl yn ymddangos fel un ai prif angen neu angen eilaidd ymhob awdurdod lleol.

Gwybodaeth a gasglwyd o Ddigwyddiad Cynllunio Anghenion CP 2016

(A) Beth ydych chi'n meddwl ydy'r bylchau yn narpariaeth bresennol cefnogaeth ar dai ar lefel lleol a rhanbarthol?

- Cydnabyddiaeth bod gwaeledd iechyd meddwl yn un o brif achosion methiant tenantiaeth, posibilrwydd i barhau gyda chefnogaeth gyfredol lefel isel (*)
- Gweithwyr arbenigol Gwent gyfan ar gyfer prosiect casglu i gyflenwi cefnogaeth a chynghor 1:1 i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (***)
- Cefnogaeth benodol ar gyfer celcio (***)
- Angen am wasanaeth cymorth iechyd meddwl pobl hŷn penodol mewn ymateb i'r cynnydd yn nisgwylid bywyd, dementia a chelcio (**)
- Gwaith cymorth lle bo'r angen yng Ngwent i'r gymuned fyddar, fel ag sydd ym Mhowys (*)
- Dim digon o wasanaethau cymorth ar gyfer cymorth hirdymor/cyfredol (*)
- Gwybodaeth staff yn sâl pan fo angen ymateb i ddigwyddiad meddyliau hunan-niweidio/hunanladdiad
- Hyd yn oed os nad ydy'r Person Ifanc (PI) yn defnyddio gwasanaethau arbenigol (neu'n gwrthod gwneud), maen nhw'n dal i allu cael eu hasesu am ymgynghoriad cymorth
- Dim darpariaeth i gefnogi PI mewn tai i gadw meddyginiaeth wedi'i storio'n ddiogel a dim sgôp o fewn y contractau sy'n caniatáu i staff annog PI i gymryd eu meddyginiaeth
- Lleoliadau'n chwalu (*)
- Dim cysylltiadau gyda lleoliadau a CAMHS neu wasanaethau camddefnydd sylweddau arbenigol (*)
- Mae gwybodaeth / hyfforddiant staff yn sâl ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd delio ag ymddygiad heriol, ac felly mae'r lleoliad yn chwalu ac mae'r PI yn cael ei symud ymlaen unwaith eto (*)
- Mwy o gefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a thu allan iddi
- Darpariaeth i gefnogi PI i fynychu apwyntiadau / grwpiau iechyd Meddwl yn sâl
- Dim darpariaeth ar gyfer tai â chymorth i bobl ifanc gyda diagnosis deuol camddefnydd sylweddau / lechyd Meddwl
- Dim gwasanaethau cymorth i rai 16 i 18 oed: gwasanaethau plant ac oedolion ddim eu derbyn (**)
- Presenoldeb ar alwad ledled meddygfeydd i ymateb i'r rhai hynny sy'n adrodd am argyfwng tai / dyled
- Llety gofal dwys llai ar gyfer rhai ag lechyd Meddwl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty (*)
- Cymorth lle bo'r angen ymatebol lefel isel (*)

(B) Unrhyw awgrymiadau sut y gall y Rhaglen Cefnogi Pobl weithio'n agosach gyda Rhaglenni Taclo Tlodi eraill: Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i ddarparu gwell deilliannau i bob grŵp cleientiaid.

- Llety gofal dwys llai ar gyfer rhai ag lechyd Meddwl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty (*)
- Asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi holl aelodau teuluoedd a effeithir gan faterion ieuchyd Meddwl – gwella cyfathrebu!
- Edrych i ariannu cymorth tai penodol yn hytrach na chymorth lechyd Meddwl
- I staff CP dreulio mwy o amser ar y 'rheng flaen' er mwyn asesu gwir anghenion
- Darparu tai â chymorth i Bobl Ifanc sydd â diagnosis deuol lechyd Meddwl/ Camddefnydd Sylweddau
- Cyllid penodol ar gyfer rhaglen Gwasanaethau lechyd Meddwl (*****)
- Codi ymwybyddiaeth o'r materion a'r cymorth sydd ar gael (**)
- Dim gwasanaethau cymorth i rai 16 i 18 oed: gwasanaethau plant ac oedolion ddim eu derbyn (**)
- Mwy o wasanaethau i mewn ac allan

Nodwyd y canlynol gan rhanddeiliaid a fynychodd y digwyddiad, fel y materion pennaf:

- *Comisiynu prosiect cymorth annibendod a chelcio*
- *Gwella gwybodaeth staff a chynyddu cyfleoedd hyfforddiant ynghylch ystod eang o faterion ieuchyd meddwl*
- *Datblygu gwasanaethau hirdymor, gwasanaethau diagnosis a rhyddhad o'r ysbyty i bobl â materion ieuchyd meddwl*
- *Datblygu ystod ehangach o wasanaethau i bobl ifanc â materion ieuchyd meddwl*
- *Cynyddu gwaith partneriaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael ymysg asiantaethau eraill*

Tabl Gwariant CP

Gofynnwyd i randdeiliaid a fynychodd diwrnod Cynllunio Anghenion Cefnogi Pobl 2016, pa grwpiau cleientiaid fydden nhw'n dymuno'u blaenoriaethu ar gyfer cyllid Cefnogi Pobl. Rhoddwyd tair £CP i bob person, gan ofyn iddyn nhw eu gosod yn eu grwpiau cleientiaid o ddewis ar gyfer yr awdurdod lleol lle maen nhw'n gweithio ac ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol. Y categorïau cleientiaid sydd wedi aroleuo a dderbyniodd pleidleisiau uchaf y tridarn arian ar draws pob awdurdod lleol ac yn rhanbarthol. Ystyriwyd gwasanaethau i bobl gyda materion iechyd meddwl yn flaenoriaeth gan rhanddeiliaid ar draws pob awdurdod lleol ac yn rhanbarthol a dderbyniodd y swm uchaf o £CP.

CLIENT CATEGORY	BLAENAU GWENT	CAERFFILU	SIR FYNWY	CASNEWYDD	RHANBARTHOLL	TORFAEN	CYFANSYMLIAU
MERCHED SY'N DIODDEF TRAIS YN Y CARTREF	3	10	11	14	13	8	59
DYNION SY'N DIODDEF TRAIS YN Y CARTREF	4	4	2	2	16	8	36
POBL AG ANABLEDDAU DYSGU	2	3	4	7	11	3	30
POBL â MATERION IECHYD MEDDWL	6	17	12	21	46	12	114
POBL â MATERION CS (ALCOHOL)	4	6	3	9	15	4	41
POBL â STATWS FFOADURIAID	2	5	1	4	8	3	23
POBL ag ANABLEDDAU CORFFOROL/SYNHWYRAIDD	1	3	2	8	8	2	24
POBL IFANC 16 I 24	9	8	10	11	28	10	76
POBL SENGL 25 I 54	4	7	4	0	15	9	39
POBL IFANC SY'N GADAEI GOFAL	4	5	5	9	13	13	49
TROSEDDU	0	2	0	7	13	2	24
POBL â MATERION CS (CYFFURIAU)	2	11	0	7	16	4	40
SALWCH CRONIG	1	0	2	1	4	0	8
TEULU OEDD	3	3	10	7	11	7	41
POBL DROS 55	13	13	9	14	21	16	86
GENERIG	2	11	7	7	24	7	58
TEULU OEDD UN RHIAIT	2	1	1	5	7	6	22
ANHWYLDEBAU DATBLYGOL	1	4	6	2	13	1	27
GWASANAETHAU LARWM	1	1	4	4	6	2	18

4. Prosiectau Rhanbarthol a Gynigir

Mae'r ffurflen Prosiectau Rhanbarthol a Gynigir yn cael ei dosbarthu'n eang fel rhan o'r fframwaith cynllunio strategol cymhwysol i randdeiliaid yn ystod 2-3 chwarter pob blwyddyn, gan roi'r cyfle i gyflwyno syniadau a chynigion ar gyfer prosiectau rhanbarthol; mae hyn yn darparu rhestr i dimau CP o gynigion parod i'w hystyried am gomisiwn ar fyr rybudd petai cyllid yn dod ar gael.

Pobl gyda materion iechedd Meddwl	Materion diagnosis deuol iechedd meddwl a chamddefnydd sylweddau, ac anghenion cymhleth	Yn cael ei amlygu fwyfwy bod pobl yn dod at wasanaethau gydag anghenion cymhleth iawn, yn enwedig materion iechedd meddwl a chamddefnydd sylweddau	Heb symud ymlaen yn ystod 2015 - 2016. Mae cyfarfod ag anghenion pobl gyda materion camddefnydd sylweddau ac iechedd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn lleol yn ogystal ag yn rhanbarthol
Pobl gyda materion iechedd Meddwl	Gwasanaeth Iechedd Meddwl Fforensig (Cymorth lle bo'r angen mewn Llety) (Angen hefyd wedi'i nodi trwy'r Bwrdd Prosiect Iechedd Meddwl)	Llety annibynnol â chymorth a chymorth lle bo'r angen i unigolion a effeithir gan faterion iechedd meddwl.	Cytunwyd y dylid rhyddhau cyllid ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yng nghyfarfod PCRh mis Gorffennaf 2014; mae angen ymarferiad cwmpasu ar y cyd pellach rhwng Iechedd a Cefnogi Pobl er mwyn niodi anghenion y grŵp yma a'r ariannu hirdymor
Pobl gyda materion iechedd Meddwl	Ymyriad Argyfwng Tai	Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechedd i ddarparu cymorth ymyriad mewn argyfwng lle bo'r angen i ymateb ar unwaith i atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol iechedd meddwl	Cyflwynwyd y prosiect ym mis Medi 2015

5. Trosolwg o gyfarfodydd adolygu timau Cefnogi Pobl

Cyfarfu Swyddogion Cynllunio i drafod y map cyflenwi ar Dachwedd 1^{af}, 2016 a chytuno bod cyflenwad da ac ystod eang o wasanaethau iechyd meddwl a gomisiynwyd ledled y rhanbarth; y teimlad oedd bod risg y gallai defnyddwyr gwasanaethau yn gynyddol wynebu loteri cod post o ran pa wasanaethau sy' agored iddyn nhw'u defnyddio, gan ddibynnu ar le maen nhw'n byw yng Ngwent.

O'r cyfarfod hwn, fe gytunwyd y dylid cynnal cyfarfod cydgynllunio pellach gyda Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl i ystyried cyflenwad presennol y gwasanaethau, tystiolaeth y galw a'r galw posib yn y dyfodol am wasanaethau mewn perthynas â'r categori cleientiaid.

Trefnwyd gweithdy ar gyfer Swyddogion Cefnogi Pobl ar Chwefror 2^{ail}, 2017.

Cafodd y categori cleientiaid ei adolygu gyda golwg ar y cwestiynau canlynol:

Cwestiynau'r gweithdy

1. *Ble mae'r bylchau ar draws y rhanbarth neu o fewn i'r ALI*
2. *A ydy defnyddwyr gwasanaethau'n wynebu loteri cod post wrth geisio cael defnydd o wasanaethau*
3. *Ble mae'r galw am wasanaethau*
4. *A oes unrhyw botensial am brosiectau wedi'u comisiynu'n rhanbarthol*
5. *Cydgomisiynu / modelau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol*

6. Gweithredu o'r cyfarfod a'r camau nesaf

- a. *Cysylltu â'r Rhaglen Mewn Un Lle a rhannu gwybodaeth a thystiolaeth o'r anghenion ynghlwm ag iechyd meddwl a cheisio cyfleoedd i gydweithredu*
- b. *Codi proffil o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael, o amgylch er enghraifft, meysydd penodol megis celcio ac annibendod, i godi lefel sgiliau staff i'w galluogi i gefnogi pobl â'r materion hyn*
- c. *Codi proffil prosiectau a chynlluniau Cefnogi Pobl gyda chydweithwyr iechyd a Gofal Cymdeithasol*
- ch. *Parhau i adeiladu cysylltiadau gyda NCN a meddygfeydd (gofal sylfaenol)*
- d. *Archwilio gwahanol fodelau tai â chymorth ar gyfer y grŵp cleientiaid yma:*
 - a. *Model tai gwasgaredig*
 - b. *Model Tai yn Gyntaf*
- dd. *Ceisio cyfleoedd i ddatblygu, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau ar y cyd*



7. Cyflenwad Gwasanaethau Cyfredol

Awdurdod Lleol	Darparwr Cymorth	Lleol/Rhanbarthol	Math o Gynllun	Cyfnod	Nifer yr oriau	Nifer yr unedau	Cyfanswm gwerth contractau y
Blaenau Gwent	Darparwr A	Lleol	Llety	6-24 mis		7	£458,030.97
Blaenau Gwent	Darparwr A	Lleol	Llety	24+ mis		6	
Blaenau Gwent	Darparwr A	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis		56	
Blaenau Gwent	Darparwr B	Lleol	Llety	24+ mis		6	
Sir Fynwy	Darparwr C	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis	308 Cyfanswm/cynllun 247 oriau uniongyrchol	50	£300,600
Caerffili	Darparwr D	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis	75		£841,730
Caerffili	Darparwr E	Lleol	Llety	24+ mis		8	
Caerffili	Darparwr A	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis	969		
Caerffili	Darparwr A	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis	95		
Caerffili	Darparwr A	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	llai na 6 mis	10		
Caerffili	Darparwr A	Lleol	Llety	6-24 mis		12	
Caerffili	Darparwr A	Lleol	Llety	6-24 mis		8	



Caerffili	Darparwr F	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	24+ mis	247		
Torfaen	Darparwr A	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis		54	£700,042.92
Torfaen	Darparwr E	Lleol	Llety	24+ mis		3	
Torfaen	Darparwr G	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis		71	
Torfaen	Darparwr G	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	llai na 6 mis		8	
Torfaen	Darparwr G	Lleol	Llety	6-24 mis		16	
Torfaen	Darparwr G	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	llai na 6 mis		20	
Torfaen	Darparwr H	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	llai na 6 mis		10	
Casnewydd	Darparwr A	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	llai na 6 mis	55.5	15	£874,963.53
Casnewydd	Darparwr I	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	6-24 mis	249.5	63	
Casnewydd	Darparwr F	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	24+ mis	132 (pro rata)	37	
Casnewydd	Darparwr J	Lleol	Cymorth lle bo'r angen	24+ mis	56 (pro rata)	13	
Casnewydd	Darparwr K	Lleol	Llety	24+ mis	85.5	11	
Casnewydd	Darparwr L	Lleol	Llety	24+ mis	30	4	
Casnewydd	Darparwr M	Lleol	Llety	24+ mis	201	31	
Casnewydd	Darparwr N	Lleol	Llety	24+ mis	78	9	
Casnewydd	Darparwr O	Lleol	Llety	24+ mis	24	6	

cefnogi**pobl**
supporting**people**




supporting independence in **Gwent**
cefnogi annibyniaeth **yng Ngwent**

Casnewydd	Darparwr P	Ileol	Llety	24+ mis	54	5	
CYFANSYMLIAU	X 16 Darparwr	Pob un yn lleol	X14 Llety X16 Cymorth lle bo'r angen	Llai na 6mis x5 6-24 mis x12 24+mis x11	2173.5awr	529 uned	£3,175,367.42



Ymarferiad Mapio ACE Cefnogi Pobl Gwent 2016



Mae Profiadau Plentynod Andwyol (ACE) yn brofiadau llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentynod ag sy'n niweidio plentyn yn uniggyrchol (e.e. camdriniaeth gorfforol) neu'n effeithio ar yr amgylchtyd maen nhw'n byw ynddo (e.e. cael eu magu mewn ty gyda thrais yn y cartref). Mae enghreifftiau'n cynnwys Defnyddio Alcohol, Defnyddio Cyffuriau, Trais, Ymddygiad Rhywiol, Carcharu, Smygu a Deiet Sâl. Yn Nghymru, amcangyfrifir bod 14% o'r boblogaeth wedi dioddef 4 neu fwy

Derbyniwyd
2459
ymateb

Roedd gan 396
o bobl (16%) 4
neu fwy ACE

Roedd 204 yn bobl ifanc - 88 o'r bobl ifanc yma wedi ymadael â gofal ac roedd 63% o'r rhai hynny oedd wedi ymadael â gofal wedi cael 4 neu fwy o brofiadau plentynod andwyol

Roedd 32% o'r rhai oedd â Gweithiwr Cymdeithasol wedi cael 4 neu fwy o Brofiadau Andwyol yn ystod eu plentynod

Ymgymrodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent ag ymarferiad mapio o'r rhai hynny sy'n derbyn cymorth gan y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r nifer o **ACE os yn wybyddus** gan eu Gweithiwr Cymorth ar Fedi 30^{ain} 2016

Fe wyddys bod 28% o'r bobl hynny lle mai Materion Camddefnydd Sylweddau (cyffuriau) oedd y prif reswm dros angen Cefnogi Pobl, wedi profi 4 neu fwy o Brofiadau Plentynod Andwyol.

Roedd 25% o fenywod gyda Merched yn Profi Trais yn y Cartref fel eu prif angen Cefnogi Pobl wedi cael 4 neu fwy o Brofiadau Plentynod Andwyol

Roedd 25% o'r rhai oedd â Swyddog Prawf wedi cael 4 neu fwy o Brofiadau Andwyol yn ystod eu plentynod

Roedd 29% o'r rhai oedd yn gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid wedi cael 4 neu fwy ACE

cefnogipobl
supportingpeople



supporting independence in Gwent
cefnogi annibyniaeth yng Ngwent

Atodiad 3

X2 Gweithwyr Arbenigol

Un swydd yn darparu cymorth i bobl yn y sector rhentu preifat a Swyddog Llety Pobl Ifanc yn Gweithio gyda Phobl Ifanc



X8 Gweithwyr Arbenigol wedi'i leoli o fewn opsiynau tai yn delio â chynladwyedd tenantiaeth x3 swydd, pobl ifanc x2 swydd, iechyd meddwl x1 swydd, trais yn y cartref x1 swydd, pobl sy'n cysgu ar y stryd a chyn-droseddwyd x1 swydd



X Gweithwyr Arbenigol

Swyddog Llety Pobl Ifanc Gwasanaeth Gateway



Cyflenwi gwasanaethau cymorth ymyriad cynnar a digartrefedd ataliol o fewn Atebion Tai



X9 Gweithwyr Arbenigol

TASA (Tîm Cefnogaeth a Chymorth Llety Dros Dro) x4 gweithiwr cymorth llawn amser wedi'u hariannu ers 2002, x1 Cydlynnydd Gateway, x1 Gweithiwr Cymorth Cynhwysiant Ariannol, x1 weithiwr Llety a Chymorth Pobl Ifanc a x2 Gweithiwr Cymorth lle bo'r angen

X8 Gweithwyr Arbenigol

Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol x4 swydd Gwasanaeth Atal Digartrefedd x2 swydd. Swyddog Llety Pobl Ifanc x1 swydd a Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl x1 swydd

